

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Nodiadau Mawrth ac Ebrill 2020 - COVID-19 – Cyflwyno 27/04/2020

1. Ymddiheuriadau

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol

Datgan unrhyw fuddiant ariannol neu bersonol i unrhyw eitem ar yr agenda.

3. Cofnodion 24/02/2020

Er mwyn cywirdeb yn unig.

4. Unrhyw Fater Brys

Dim

5. Cae chwarae

Dim Gweithrediad

6. Y Fynwent

Bu i'r Clerc gysylltu gyda 3 ymgynghorydd; Dylan Morris (Wakemans), Haydn Williams (Haydn E Williams Cyf) a Dylan Evans (Cynnan Consulting) i ofyn am bris i reoli'r prosiect. Mae'r tri wedi bod mewn cysylltiad eisoes ac wedi gofyn am ymweliad safle.

Yn unol â chanllawiau Covid-19; Caiff gwneud ymweliad safle ei hunain os dymunir a chysylltu gyda'r Clerc a Chadeirydd am fwy o wybodaeth.

7. Awdit

• **Archwiliad BDO 2018-19**

Derbyniwyd caniatâd i fancio dros y we ac felly gellir parhau gyda lawr lwytho datganiadau priodol er ymateb i faterion archwiliad 18-19

• **Archwiliad 2019-20**

Mae'r gwaith wedi cychwyn er yr amgylchiadau.

Mae'r wefan wedi ei ddatrys ond angen ychwanegu gwybodaeth o daflen 'Troedio Llwybrau Plwyf Llanbedrog'

8. Rhestr eiddo

Dim diweddariad

9. Llwybrau

- **Rhestru a nodi llwybrau ar fap** – Clerc yn parhau hefo'r gwaith.
- **Cyfraniad Cyngor Gwynedd 2019-20** – wedi derbyn £570.60 fel ad-daliad i dorri llwybrau'r gymuned.

10. Traethau

Dim gweithrediad

11. Cofebion Mynydd Tir y Cwmwd

Dim diweddariad

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Nodiadau Mawrth ac Ebrill 2020 - COVID-19 – Cyflwyno 27/04/2020

12. Coronavirus covid-19

- **Gweithredu** – Bu i'r Clerc lunio canllawiau gweithredu a'i gyrru i'r cynghorwyr gweler **Atodiad 1**
- **Materion Cymunedol** – Mae tudalen Facebook Cyngor Cymuned Llanbedrog wedi ei sefydlu. Mae'r tudalen yn gyfle i'r Cyngor Cymuned rhannu gwybodaeth hanfodol a chynnig cefnogaeth i'r gymuned. Mae Cynghorwyr sydd yn gallu wedi rhoi caniatâd i roi manylion cyswllt personol ar y tudalen
- **Ariannol** - Derbyniwyd cais am gymorth gan Dr Arfon Williams o feddygfa Nefyn cydlynnydd Covid-19 Llyn ac Eifionydd. Cynigwyd William Roger Jones (Eilydd – William Penri Jones) dros e-bost i roi rhodd o £1000 at yr achos. Cytunwyd yn unfrydol. Mae'r siec bellach wedi ei yrru.

13. Eisteddfod Genedlaethol 2021

Eisteddfod Genedlaethol 2020: COVID-19 – Dim diweddarid

Taliadau yw Cymeradwyo

Cyflog y Clerc - Rhian Parry

Mawrth £333.33

Ebrill £333.33

£666.66

Ashley Hughes – Nwyddau Cefnogol

£8.46

Taliadau ychwanegol wedi eu gwneud - Pwyllgor 24/02/2020

Ashley Hughes – Nwyddau Cefnogol

£143.92

Dwr Cymru – Dwr y fynwent

£101.16

Un Llais Cymru – Adnewyddu aelodaeth

£239.00

Rhian Parry – Ad-daliad Anti Firws

£79.99

Taliadau brys wedi eu gwneud ers pwyllgor 24/02/2020

Zurich - Yswyriant (Blwyddyn 1 o cytundeb 3 mlynedd)

£550.68

Ty Doctor, Nefyn – Rhodd Covid-19

£1000.00

Taliadau wedi eu Derbynn

J A Owen – Trefnwr Angladdau

£145.00

Cyngor Gwynedd – Cyfraniad Llwybrau

£570.60

Ceisiadau Cynllunio

C20/0177/38/CC

Gwaith i goed o fewn ardal orchymyn gwarchod coed

Llyn Builders, Llanbedrog

Dim Sylwadau

C20/0253/38/LL

Ymestyn safle carafanau teithiol tymhorol er lleoli 5 carafan ychwanegol, cynnyddu darpariaeth storio gaeaf i 15 uned teithiol mewn cyfanswm, ffurfio bwnd pridd 1.2 metr o uchel, cadw bloc toiledau presennol, ac ymgymryd a gwaith tirlunio.

Bryniau Lôn Pin, Llanbedrog,

Dim Sylwadau

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Nodiadau Mawrth ac Ebrill 2020 - COVID-19 – Cyflwyno 27/04/2020

C20/0263/38/DT

Adnewyddu Mewnol ac Allanol gan gynnwys trosiad llofft gyda ffenestri to.

Lanskil Ffordd Y Glyn, Llanbedrog,

Dim Sylwadau

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Eisteddfod Genedlaethol 2021** - pathed Coronavirus: COVID-19
3. **Llyn Arts Festival** - yarn bombing ger y nant bach yn Llanbedrog
4. **Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd** - Newidiadau i Bolisi Gosod Tai
5. **Cyngor Gwynedd** - Cyngor i drigolion a busnesau
6. **Cadw Cymru'n Daclys** - Cyfle Cyffrous - Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
7. **Panel Annibynnol Cymru** ar Gydnabyddiaeth Ariannol-yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofa
8. **Llywodraeth Cymru** - Cyfleoedd cyllido Twf Gwyrdd i Gyngorau Cymuned a Thref
9. **Llywodraeth Cymru** - Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020
10. **Priffyrdd** - Gorchymyn Cyngor Gwynedd Council Order
11. **Un Llais Cymru** - Pwyllgor Cyngorau Lleol Mwy Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd Ar 5 Chwefror 2020
12. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** - Cynhadledd Adborth Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020
13. **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** - Helpwch Byd Natur i Weithio dros Eich Cymuned chi gyda chyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur!
14. **Llywodraeth Cymru** - ADRODDIAD: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)
15. **Tim Oedolion Llyn** - COVID-19 -Gweithredu grwpiau
16. **Un Llais Cymru** - Trefniadau Ariannol A Llywodraethiant
17. **Cyngor Cymuned Tudweiliog** - Cyngorau Cymudned ardal Dwyfor – Coronafeirws
18. **Caernarfonshire Village Award** – Wedi ei ganslo am eleni
19. **Cyngor Gwynedd** - Coronavirus (COVID-19) holl doileadau cyhoeddus y Cyngor wedi cau am gyfnod amhenodol
20. **Un Llais Cymru** - Chanllawiau Gwirfoddoli ar gyfer Staff Cyswllt Awdurdodau Lleol
21. **Power For People** - Request for your help with the Local Electricity Bill
22. **Un Llais Cymru** - Argyfwng Cofid 19 - Diweddariad Llywodraethiant
23. **Un Llais Cymru** - atgoffa brys pandemig coronafeirws – cais brys ynghylch arolwg
24. **Dr Arfon Williams o feddygfa Nefyn Cydlynnydd COVID 19** – cais am gymorth
Derbyniwyd y cais uchod am gymorth gan gydlynnydd Covid-19 Llyn ac Eifionydd. Cynigwyd William Roger Jones (Eilydd – William Penri Jones) dros e-bost i roi rhodd o £1000 at yr achos. Cytunwyd yn unfrydol. Mae'r siec bellach wedi ei yrru.
25. **Un Llais Cymru** - NEW ITV SHOW & COVID-19 ToolKit
26. **Post** - Rhwydwaith Swyddfa'r Post yng Nghymru - Diweddariad COVID-19
27. **Elusen Calonnau Cymru** - Gyriant Diffibriliwr Cyngor Cymru ar gyfer Gwynedd
28. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Diweddariad** COVID-19 gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
29. **Llywodraeth Cymru** - IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020
30. **Llywodraeth Cymru** - Wedi'i ddiweddarau - Trefniadau ar gyfer angladdau ac amlosgiadau
31. **ITV Cymru / S4C** - Y Byd ar Bedwar

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031•

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Nodiadau Mawrth ac Ebrill 2020 - COVID-19 – Cyflwyno 27/04/2020

32. **Power for People** - Request for your help with the Local Electricity Bill
33. **Ty Doctor Nefyn** – Llythyr Diolch am y cyfraniad.
34. **ASTRA BROADBAND GROUP** - Rural High Speed Broadband in Gwynedd
35. **Cyngor Gwynedd** - Cyfeirlyfr Cymorth Ardal Llyn
36. **Llywodraeth Cymru** - Rheoliadau awdurdodau lleol (coronafeirws) (cyfarfodydd) (Cymru) 2020
37. **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Cyfoeth - 22 Ebrill 2020
38. **Un Llais Cymru** - CANLLAWIAU AR GYFER CEFNOGI CYFARFODYDD A GYNHELIR O BELL
39. **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Briff i Randeiliaid ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â Covid gan LIC

Cais am gyfraniad

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa
2. **BOBATH** – Canolfan Therapi Plant Cymru
3. **Ysgol Llanbedrog** – Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** – Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie** - Cais am gyfraniad
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli** – Cais am gyfraniad
7. **Dawns i Bawb** – Cais am gyfraniad
8. **Theatr Bara Caws** – Cais am gyfraniad
9. **Eisteddfod yr Urdd** – Sir Ddimbych 2020
10. **Victim Support** – Cais am gyfraniad
11. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** - Cais am gyfraniad
12. **Hosbis Dewi Sant** – Cais am gyfraniad
13. **Llangollen International Musical Eisteddfod** – Cais am gyfraniad
14. **Teenage Cancer Trust Cymru** – Cais am gyfraniad
15. **Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw** – Cais am gyfraniad
16. **Ymchwil Canser Cymru** – Cais am gyfraniad

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031•

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Nodiadau Mawrth ac Ebrill 2020 - COVID-19 – Cyflwyno 27/04/2020

Atodiad 1

TREFNIADAU COVID-19

DYDDIAD CYHOEDDI – Dydd Iau 26 Mawrth 2020

Yn dilyn y canllawiau a derbynwyd 25 Mawrth, 2020 am sut allai Cyngor rheoli ei waith yn ystod yr argyfwng Coronafeirws presennol, rwyf yn cysylltu â chi i roi gwybod bod Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn edrych sut all Cynghorau reoli eu gwaith dros y misoedd nesaf, o gofio gofynion deddfwriaethol ynghylch materion ariannol a llywodraethiant, tra ar yr un pryd yn cadw'n gaeth at ganllawiau Llywodraeth ynghylch gwasanaethau iechyd cyhoeddus hanfodol.

1. Cyfarfod y Cyngor

Mae Deddf cyrff cyhoeddus (derbyn i gyfarfodydd) 1960 a Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi'r gofynion o ran galw a chynnal cyfarfodydd. Rhaid i holl gyfarfodydd y Cyngor fod yn agored i Aelodau'r cyhoedd eu mynychu. Yn ein barn ni, mae hyn yn peri rhai anawsterau wrth drefnu cyfarfodydd drwy Skype neu gynadledda fideo tebyg. Byddai angen i gynghorau sicrhau bod y cyfarfod arfaethedig yn cael ei hysbysebu'n briodol, gan nodi y bydd cyfarfod Skype ac y gallant ymuno ag ef i arsylwi. Dylai'r hysbysiad ofyn am gyfeiriadau e-bost fel y gellir anfon gwahoddiadau Skype at unigolion sy'n dymuno "mynychu". Rhaid i'r cyfeiriadau gael eu defnyddio at ddibenion y cyfarfod yn unig a dylid eu dileu ar ôl cwblhau'r archwiliad. Gall hygyrchedd fod yn broblem gan nad oes gan bawb mynediad i gynadledda fideo.

2. Cyfarfod Blynyddol

Mater arall pryderus yw'r angen statudol i gynnal y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai pan gaiff y Cadeirydd newydd ei ethol/hethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor ar sut ellir newid yr angen statudol hwn eleni.

3. Dirprwyo hawl penderfyniadau

Er mwyn osgoi'r angen i aelodau fynychu cyfarfodydd arferol, gellir Gynghorau gymeradwyo grymoedd dirprwyedig i un o'i swyddogion (fel arfer y Swyddog Priodol - Clerc) hyd yn oed os yw'r dirprwyo ynghlwm wrth yr angen i'r Swyddog Priodol ymgynghori ag aelodau penodedig cyn gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor.

Ar gyfer penderfyniadau sy'n golygu awdurdodi gwariant ar ran y Cyngor, dylid gosod uchafsymiau o ran meysydd lle y gellir defnyddio'r dirprwyo i gymeradwyo gwariant e.e. atgyweiriadau brys i adeiladau.

Byddai'n briodol hefyd i'r Swyddog Priodol gadw rhestr o'r penderfyniadau a gymerwyd trwy'r dirprwyo cymeradwy, er mwyn ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chadarnhau a'i chynnwys yng nghofnodion cyfarfod cyntaf y Cyngor a gynhelir wedi diwedd cyfnod yr argyfwng presennol.

4. Ceisiadau Cynllunio

O dan yr amgylchiadau bydd y Clerc yn gyrru ceisiadau cynllunio dros y we fel yr arfer. Os oes unrhyw sylwadau dylid ymateb i'r neges yn dorfol er i'r holl aelodau cael cyfle i ymateb. Bydd y Clerc yn ymateb ar ran y Cyngor Cymuned o fewn yr amserlen.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Nodiadau Mawrth ac Ebrill 2020 - COVID-19 – Cyflwyno 27/04/2020

5. Archwiliad 2019-2020

Mae Archwilydd Cyffredinol wedi cysylltu i roi gwybod am newid yn y trefniadau archwilio allanol ar gyfer cylch archwilio 2019/20. fydd yn mynd i'r afael â'r gofidiau fydd gan Gyngorau am yr angen arferol iddynt gyfarfod ym mis Mehefin i gymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2019/20.

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys digon o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer yr amgylchiadau eithriadol presennol. Felly, mae ein hymagwedd tuag at archwiliad 2019-20 fel a ganlyn:

- Anogir cynghorau i baratoi'r cyfrifon blynyddol a'r datganiad llywodraethu cyn gynted â phosibl ac, os oes modd, i'r swyddog ariannol cyfrifol ardystio'r cyfrifon yn unol â'r amserlen a bennir gan y Rheoliadau. Cyn belled â bod clerod yn parhau i fod yn iach, gellir cwblhau hyn tra nad yw cynghorau'n cynnal cyfarfodydd.
- Os yw'r cyfrifon yn annhebygol o gael eu hardystio gan y swyddog ariannol cyfrifol a'u cymeradwyo erbyn 30 Mehefin, dylai cynghorau hysbysu eu tîm archwilio, drwy e-bost, y bydd oedi.
- Yna, rhaid i gynghorau gyhoeddi hysbysiad yn ôl y gofyn, gan gynnwys rhoi copi ar eu gwefan. Dylai cynghorau ddarparu tystiolaeth o hyn i'r tîm archwilio pan gaiff y ffurflen flynyddol gymeradwy ei chyflwyno yn y pen draw.
- Ar yr amod bod hysbysiad yn cael ei gyhoeddi fel y nodir uchod a bod tystiolaeth ddigonol yn cael ei darparu, ni fydd y farn archwilio yn amodol. Bydd cynghorau wedi dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.
- Mae'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr wedi'i nodi yn yr hysbysiad archwilio sydd wedi'i gynnwys gyda'r datganiadau blynyddol. Mae'n debygol y bydd oedi sylweddol yn y broses archwilio. Felly, bydd angen I ni bennu dyddiad newydd ar gyfer arfer yr hawliau hyn ac nid oes angen igynghorau gyhoeddi'r hysbysiad archwilio y maent newydd ei dderbyn.
- Ar ôl i'r cyfrifon gael eu hardystio a'u cymeradwyo, bydd angen I gynghorau hysbysu'r tîm archwilio a chyflwyno'r ffurflen flynyddol a gwybodaeth ychwanegol i'r tîm archwilio yn brydlon.
- Bydd archwilwyr yn cytuno ar ddyddiad newydd ar gyfer arfer hawliau etholwyr ar ôl iddynt gael gwybod bod y cyfrifon wedi'u cymeradwyo. Wrth gytuno ar y dyddiadau diwygiedig gyda chynghorau.
- Mae Rheoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol bod y cyfrifon yn cael eu cymeradwyo gan gyfarfod y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Felly, ein barn ni yw na all Cyngor ddirprwyo'r gymeradwyaeth i'r cyfrifon i bwyllgor.

6. CEFNOGI CYMUNEDAU LLEOL

Mae cynghorau lleol mewn lle delfrydol i roi gwybodaeth a chefnogaeth i bobl leol fel y gwnânt yn barod mewn nifer o sefyllfaoedd eraill — o gynorthwyo adeg llifogydd ac argyfyngau eraill i gefnogi pobl fregus neu unig. Ac mae bron yn sicr mai felly y bydd pethau yn y sefyllfa bresennol. Mae Un Llais Cymru yn credu y gallai fod gan gynghorau cymuned a thref rôl fawr yn ystod y cyfnod presennol, gan gadw llygad ar bobl fregus ac annog gwirfoddolwyr newydd i gynnig eu hunain i helpu.

7. TÂL SALWCH STATUDOL

Cafodd Rheoliadau Tâl Salwch Statudol (Cyffredinol) (Diwygiad Coronafeirws) 2020 eu gwneud ar 12 Mawrth 2020 a daethant i rym ar 13 Mawrth. Roeddent yn diwygio Rheoliadau Tâl Salwch Statudol (Cyffredinol) 1982 ac yn trefnu y bydd Tâl Salwch Statudol ar gael i unrhyw un sy'n ynysu eu hunain oddi wrth bobl eraill yn y fath fodd er mwyn atal

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Nodiadau Mawrth ac Ebrill 2020 - COVID-19 – Cyflwyno 27/04/2020

Iledu haint coronafeirws, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Public Health England, NHS Scotland neu Iechyd Cyhoeddus Cymru ac a ddaeth i rym ar 12 Mawrth 2020, ac sydd oherwydd hynny'n methu gweithio. Dywedodd y llywodraeth y bydd y Tâl Salwch Statudol yn daladwy o'r diwrnod cyntaf (nid, fel o'r blaen, o'r pedwerydd diwrnod) ac y bydd cyflogwyr a chanddynt lai na 250 o weithwyr yn gallu hawlio'r gost yn ôl oddi wrth y llywodraeth hyd at uchafswm o bythefnos o Dâl Salwch Statudol.

Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol barhau i adolygu'r ffordd y mae'r Rheoliadau yn gweithio a byddant yn peidio â bod yn weithredol wyth mis wedi iddynt ddod i rym.

8. HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU

O ystyried y sefyllfa bresennol mae Un Llais Cymru wedi penderfynu gohirio pob cwrs hyfforddiant am y dyfodol rhagweladwy gan ddechrau yn syth. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa o wythnos i wythnos ac yn rhoi gwybod i bob cyngor pan fyddwn yn gallu dechrau cynnig cyrsiau eto. Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra a achoswyd, ond mae'n rhaid inni wneud lles ein hyfforddwyr, cynghorwyr a budd-ddeiliaid yn brif flaenoriaeth.

9. FFYNONELLAU CYNGOR

Mae sefyllfa'r coronafeirws yn symud yn gyflym ac mae mwy a mwy o gamwybodaeth ar gael ar-lein. Dylem fod yn defnyddio cyngor llywodraeth wrth wneud penderfyniadau a gwirio'r cyngor hwnnw yn rheolaidd.

- Iechyd Cyhoeddus Cymru – <https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novelcoronavirus-covid-19/> - mae'n cynnwys Cwestiynau Mwyaf Cyffredin fydd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.
- Mae gwe ddolen **Llywodraeth Cymru** isod yn dudalen benodol sydd wedi'i hanelu at gyflogwyr a busnesau a byddem yn argymhell y dylid ei rhannu gyda chynghorwyr gan ei bod yn cynnig cyngor ar y cyfrifoldebau sydd gan unigolion i'w hunain ac i gydweithwyr: -<https://gov.wales/coronavirus-covid-19-employers-and-businesses-guidance>